

| CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | | | |
|-------------------------------------------------------------|------------------------------|------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2020 |
| Maes:- | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| <u>Gwasanaethau Oedolion</u> | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 15,077 | 15,347 | 270 | 0 | 270 | 457 |
| Gofal Cartref | 7,100 | 7,277 | 177 | 0 | 177 | (289) |
| Eraill | (249) | 866 | 1,115 | 0 | 1,115 | 1,214 |
| | 21,928 | 23,490 | 1,562 | 0 | 1,562 | 1,382 |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | 2,374 | 2,471 | 97 | 0 | 97 | (31) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 19,562 | 19,601 | 39 | 0 | 39 | (438) |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 3,554 | 3,424 | (130) | 0 | (130) | (130) |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | 3,095 | 3,116 | 21 | 0 | 21 | (69) |
| <u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u> | 50,513 | 52,102 | 1,589 | 0 | 1,589 | 714 |
| <u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u> | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 96 | (152) | (248) | 0 | (248) | (28) |
| Gofal Dydd | 14 | 103 | 89 | 0 | 89 | 240 |
| Gofal Cymunedol | 69 | 695 | 626 | 0 | 626 | 539 |
| Eraill | 22 | 49 | 27 | 0 | 27 | 43 |
| <u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u> | 201 | 695 | 494 | 0 | 494 | 794 |

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2020 |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| Maes:- | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| <u>Gwasanaethau Eraill</u> | | | | | | |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol (<i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i>) | 3,040 | 3,496 | 456 | 0 | 456 | 378 |
| Gwariant Covid19 ym maes Gofal Oedolion | | 1,908 | 1,908 | 0 | 1,908 | 0 |
| Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran | | (229) | (229) | 0 | (229) | 0 |
| <u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u> | 3,040 | 5,175 | 2,135 | 0 | 2,135 | 378 |
| <u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u> | 53,754 | 57,972 | 4,218 | 0 | 4,218 | 1,886 |
| <i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i> | | | | (960) | (960) | |
| <u>Cyfanswm Addasedig Oedolion, Iechyd a Llesiant</u> | | | | | 3,258 | |

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Gwasanaethau Pobl Hŷn - cynnydd yn y galw am becynnau gofal cartref a phwysau ar y ddarpariaeth gofal preswyl a nyrsio. O fewn y pennawd 'Eraill', methiant i wireddu gwerth £1,144k o arbedion a gorwariant o £323k ar Lety Cefnogol, gyda chostau cynllun Hafod y Gest yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant perthnasol. Derbyniad grant yn lleihau y gorwariant a adroddir.

Gwasanaethau Anabledd Corff - y galw wedi cynnyddu yn arbennig felly yn y maes Gofal Cartref.

Gwasanaethau Anabledd Dysgu - 3 achos newydd drud ym mhreswyl a nyrsio ac effaith Covid19 wedi cyfrannu at wariant ychwanegol gan y gwasanath ond bu lleihad yn y galw am gynlluniau cefnogol eleni.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl - llai o bwysau ar y ddarpariaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â throsiant staff.

Gwasanaethau Darparu - staffio uwchlaw lefel y gyllideb yn faterion yn Gofal Cymunedol a Gofal Dydd. Costau ychwanegol cysylltiedig â Covid19 yn arbennig yn y maes Gofal Preswyl, gyda'r disgwyliad y bydd y Llywodraeth yn digolledu'r Cyngor am y gost.

Gwasanaethau Canolog Adrannol - cost cynyddol y cynllun Teleofal a llithriad mewn gwireddu gwerth £563k o gynlluniau arbedion.

Cyllideb 2020/21 - eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £1.8 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2020/21 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Gofal Preswyl yn Darparu a Phreswyl a Nyrsio Pobl Hŷn.

Gwariant / Grant Covid19 - mae effaith Covid19 wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni gyda dros £3 miliwn wedi ei wynebu hyd at ddiwedd Tachwedd, ac mae grant caledi Covid o £1.722 miliwn eisoes wedi ei ddyrannu i'r adran tuag at y costau ychwanegol perthnasol am y chwarter cyntaf a £960k pellach i'w ddyrannu fel rhan o'r adolygiad yma ar gyfer yr ail chwarter.

Arbedion - heb ystyried ardrawiad Covid19, mae methiant i gyflawni arbedion gwerth £1.8 miliwn yn ffactor sylweddol o'r gorwariant. Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi comisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb, fel bod modd cael gwell dealltwriaeth o fanylder cymhleth y darlun ariannol yng ngofal oedolion.

| CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | | | |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| Adran Plant a Theuluoedd | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2020 |
| Maes:- | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 590 | 599 | 9 | 0 | 9 | (6) |
| Gweithredol | 2,161 | 2,195 | 34 | 0 | 34 | 39 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 2,965 | 4,573 | 1,608 | 0 | 1,608 | 1,591 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,179 | 1,534 | 355 | 0 | 355 | 447 |
| Maethu Mewnol | 2,161 | 2,573 | 412 | 0 | 412 | 374 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,824 | 1,665 | (159) | 0 | (159) | (47) |
| | 8,129 | 10,345 | 2,216 | 0 | 2,216 | 2,365 |
| Ôl-16 | 1,055 | 1,460 | 405 | 0 | 405 | 414 |
| Arbenigol/Derwen | 1,839 | 2,075 | 236 | 0 | 236 | 239 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 253 | 192 | (61) | 0 | (61) | (38) |
| Blynyddoedd Cynnar | 157 | 93 | (64) | 0 | (64) | (52) |
| Ieuenctid | 896 | 735 | (161) | 0 | (161) | (164) |
| Eraill | 1,720 | 1,699 | (21) | 0 | (21) | (18) |
| Cyfanswm Plant a Theuluoedd | 16,800 | 19,393 | 2,593 | 0 | 2,593 | 2,779 |
| <i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i> | | | | (142) | (142) | |
| <u>Cyfanswm Addasedig Plant a Theuluoedd</u> | | | | | 2,451 | |

Plant a Theuluoedd

Lleoliadau - er fod £1.8m o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes yma ar gyfer 2020/21 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol, mae'r gorwariant yn parhau gyda rhagolygon o orwariant o £2.2m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. O fewn y pennawd ceir gwerth £688k o arbedion sydd eto i'w gwireddu ac sydd yn edrych yn anhebygol o gael eu gwireddu bellach.

Rhan helaeth o'r gorwariant yn deillio o 8 achos lleoliad all-sirol newydd eleni, ynghyd ag effaith flwyddyn lawn 7 achos a ddechreuwyd yn ystod 2019/20, gyda'r nifer lleoliadau cyfartalog bellach wedi cynyddu i 21.6 o 18.1 ar gyfer 2019/20. Yn maethu drwy asiant, 3 achos newydd eleni ac effaith blwyddyn lawn 12 achos a gychwynwyd yn 2019/20. Gorwariant yn deillio o effaith flwyddyn lawn y cynnydd yn niferoedd lleoliadau maethu mewnol y llynedd (166 ar 31.3.20, 139 ar 31.3.19). Yn dilyn adolygiad o'r ymrwymïadau all-sirol, daeth yn amlwg y bu newid i'r math o achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly i'r costau cysylltiedig.

Ôl-16 - costau cefnogaeth cychwynol uchel eleni yn deillio o 3 achos o'r newydd ers dechrau'r flwyddyn ariannol ynghyd ag effaith flwyddyn lawn 2 achos y llynedd.

Arbenigol/Derwen – effaith cynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol dros y blynyddoedd diwethaf yn gyfrifol am y gorwariant, ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gostau teithio o ganlyniad i gyfyngiadau Covid19.

Cyfiawnder Ieuenctid - trosiant staff a defnydd o gyfraniadau i ddisodli arian craidd yn golygu bod tanwariant ar y pennawd.

Blynyddoedd Cynnar – defnydd o grantiau yn cyllido gwariant craidd a derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yn gyfrifol am y tanwariant.

Ieuenctid – derbyniad grant uwch eleni yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth.

Er gwaethaf yr argyfwng Covid19, mae'r Tasglu Cyllideb Plant bellach wedi ail-afael yn y gwaith o roi sylw i faterion ariannol dyrys yr adran.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

| Adran Addysg | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2020 |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------|-----------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|----------------------------------------------------|
| Maes:- | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 80,371 | 80,371 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm Prydau Ysgolion Uwchradd (Datganoledig) | 0 | 76 | 76 | 0 | 76 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (628) | (929) | (301) | 0 | (301) | (219) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | 0 | | | |
| Cludiant | 4,906 | 4,731 | (175) | 0 | (175) | (449) |
| Gwasanaeth Atodol | 574 | 1,722 | 1,148 | 0 | 1,148 | 534 |
| Eraill | 3,156 | 3,048 | (108) | 0 | (108) | (141) |
| | 8,636 | 9,501 | 865 | 0 | 865 | (56) |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,281 | 2,217 | (64) | 0 | (64) | (60) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 4,536 | 4,348 | (188) | 0 | (188) | 24 |
| Cyfanswm Addysg | 95,196 | 95,584 | 388 | 0 | 388 | (311) |
| <i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i> | | | | (482) | (482) | |
| Cyfanswm Addasedig Addysg | | | | | (94) | |

Addysg

Incwm Prydau Ysgolion Uwchradd - colled incwm prydau ysgol yn deillio o'r argyfwng Covid19, y Llywodraeth wedi digolledu'r Cyngor am werth hanner y flwyddyn ond fod dyraniad yr ail chwarter eto i'w ddyrannu i'r adran.

Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion - cyfuniad o dderbyniad grantiau, trosiant staff, cwotgi ar wariant a lleihad yn y galw ar rai cyllidebau dros y cyfnod clo yn gyfrifol am y tanwariant a ragwelir.

Cludiant - yn groes i'r tueddiad gorwariant arferol, rhagwelir tanwariant o (£175k) ar gludiant eleni yn dilyn i'r ysgolion fod ar gau am gyfnod yn nhymor yr haf gyda thanwariant o (£173k) ar fysis ysgol a (£119k) ar gludiant tacsis a threnau, ond sydd yn cael ei leihau gan ddiffyg o £117k ar werthiant tocynnau Cludiant Ôl-16 dros y cyfnod clo.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - colled incwm prydau ysgol ac am yr elfen gofal o'r clybiau brechwast yn deillio o'r argyfwng, ynghyd â chynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio cinio am ddim. Cynnydd sylweddol yn y gorwariant a adroddir o ganlyniad i'r gofynion glanhau ychwanegol ysgolion cysylltiedig â Covid19 a ddaeth i rym ym Medi. Disgwylir y bydd grantiau Covid y Llywodraeth yn cyfarch y costau ychwanegol perthnasol.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol yn arbennig felly yn ystod y cyfnod clo.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth - derbyniad grant a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol o'r gyllideb.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra fod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £191k.

| CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | | | |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| Adran Economi a Chymuned | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2020 |
| Maes:- | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 356 | 347 | (9) | 0 | (9) | (6) |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 367 | 366 | (1) | 0 | (1) | 0 |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | 16 | 144 | 128 | 0 | 128 | 271 |
| Cytundebau Hamdden | 1,447 | 1,452 | 5 | 0 | 5 | (39) |
| Rhaglenni Chwaraeon | 59 | 33 | (26) | 0 | (26) | (26) |
| Rhaglenni Datblygu Economiadd | (83) | (83) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Marchnata a Digwyddiadau | 260 | 264 | 4 | 0 | 4 | 3 |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,613 | 1,550 | (63) | 0 | (63) | (93) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 857 | 879 | 22 | 0 | 22 | 43 |
| Cyfanswm Economi a Chymuned | 4,892 | 4,952 | 60 | 0 | 60 | 153 |
| <i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i> | | | | (160) | (160) | |
| <u>Cyfanswm Addasedig Economi a Chymuned</u> | | | | | (100) | |

Economi a Chymuned

Morwrol a Pharciau Gwledig - diffyg incwm yn sgil argyfwng Covid19 wedi cael effaith sylweddol ar y maes yma sydd yn cyfrannu at orwariant o £107k ar Morwrol a £21k ar Barciau Gwledig. Colled incwm amlycaf i'w weld yn Hafan, Pwllheli a'r harbyrau. Disgwylir y bydd grantiau Covid yn golygu fod mwyafrif y gorwariant a ragwelir ar Morwrol a Pharciau Gwledig yn cael ei ddiddymu.

Cytundebau Hamdden - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Gan fod y canolfannau wedi bod ar gau am ran o'r flwyddyn o ganlyniad i Covid19, rhagwelir leihad un-tro ar gostau rhedeg y canolfannau hamdden eleni gydag arian i ddigolledu am gostau ychwanegol Covid yn ddyledus gan Lywodraeth Cymru.

Llyfrgelloedd Gwynedd - nifer o swyddi gwag, derbyniad grantiau a lleihad mewn gwariant tra bu llyfrgelloedd ar gau dros y cyfnod clo.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - problemau yn parhau yn Storiell gyda rhagolygon diffyg o £68k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sydd yn gyfuniad o orwariant ar gostau staff a diffyg yn yr incwm. Y gwaith o adnewyddu Neuadd Dwyfor wedi cychwyn ac felly dim modd cynhyrchu incwm eleni, tra fod effaith Covid19 wedi arwain at golled incwm gan Amgueddfa Lloyd George. Cwtogi ar wariant wedi arwain at danwariant gan y Celfyddydau ac Archifau. Derbyniad grantiau Covid, Grantiau Cyngor y Celfyddydau a chynllun saib swyddi yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

| Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd) | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2020 |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| Maes:- | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Prifffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 9,728 | 9,601 | (127) | 0 | (127) | (101) |
| Gwasanaethau Peirianeg | 383 | 461 | 78 | 0 | 78 | 60 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | | | | | | |
| Gwastraff | 11,025 | 11,828 | 803 | 0 | 803 | 481 |
| Eraill | 3,920 | 4,449 | 529 | 0 | 529 | 397 |
| Cyfanswm Prifffyrdd a Bwrdeistrefol | 25,056 | 26,339 | 1,283 | 0 | 1,283 | 837 |
| <i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i> | | | | (637) | (637) | |
| Cyfanswm Addasedig Prifffyrdd a Bwrdeistrefol | | | | | 646 | |

Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - cyfyngiadau Covid19 yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn yn golygu y bydd cyllideb gweithiau ffyrdd yn tanwario eleni, swyddi gwag a thanwariant ar benawdau amrywiol hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa tanwariant a ragwelir.

Gwasanaethau Peirianeg - oediad mewn gwireddu cynlluniau arbedion, ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiaid.

Gwastraff - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant a ragwelir ond y gorwariant yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd bellach wedi dod i rym yn Nwyfor ac yn fwy diweddar yn Arfon ond llithriad pellach yn amserlen gweithredu'r drefn newydd ym Meirionnydd i Fawrth 2021, felly costau trosiannol cysylltiedig â chostau staffio a salwch eleni.

Y gwasanaeth wedi wynebu costau ychwanegol a cholledion incwm yn deillio o Covid19 a gwelwyd hefyd leihad sylweddol yn y prisiau a dderbynnir am werthiant deunyddiau ailgylchu. Mae'r adran hefyd yn cael trafferthion gwireddu arbedion.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill - sgil effeithiau Covid19 wedi arwain at golledion incwm gan gynnwys yn y maes gwastraff masnachol wrth i fusnesau fod ar gau dros y cyfnod clo. Gofynion ychwanegol a newidadau i drefniadau gweithio er mwyn cydymffurfio efo rheolau Covid19 ac ymbellhau cymdeithasol yn gost ychwanegol. Methiant i wireddu cynlluniau arbedion amrywiol hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa.

| CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | | | |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| Adran Amgylchedd | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2020 |
| Maes:- | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 419 | 328 | (91) | 0 | (91) | (88) |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 490 | 660 | 170 | 0 | 170 | 148 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 693 | 463 | (230) | 0 | (230) | (146) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,786) | (1,368) | 418 | 0 | 418 | 114 |
| Cludiant Integredig | 1,684 | 1,955 | 271 | 0 | 271 | 293 |
| | 591 | 1,050 | 459 | 0 | 459 | 261 |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 654 | 652 | (2) | 0 | (2) | (15) |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,604 | 1,640 | 36 | 0 | 36 | (2) |
| <u>Cyfanswm Amgylchedd</u> | 3,758 | 4,330 | 572 | 0 | 572 | 304 |
| <i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i> | | | | (203) | (203) | |
| <u>Cyfanswm Addasedig Amgylchedd</u> | | | | | 369 | |

Amgylchedd

Rheolaeth - tanwariant cyffredinol ac arbedion ymlaen llaw yr adran wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu - y tueddiad cyffredinol o ddiffyg incwm yn parhau eto eleni sydd yn cael ei leddfu rhywfaint gan danwariant staff a gwariant is ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol ac apeliadau.

Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth

Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) - cyfuniad o swyddi gweigion, tanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys ar weithiau yn y maes Cynllunio Ymlaen ond diffyg incwm ffioedd gwaith stryd a ffioedd ar gytundebau mabwysiadu ffyrdd.

Parcio a Gorfodaeth Parcio - effaith sylweddol cyfyngiadau Covid19 yn gyfrifol am ddiffyg incwm parcio o dros filiwn am hanner cyntaf y flwyddyn ariannol, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi digolledu'r Cyngor £874k am werth y golled yn chwarter cyntaf y flwyddyn, gyda £198k pellach am yr ail chwarter wedi ei dderbyn ond eto i'w ddyrannu. Rhagolygon o ddiffygion incwm pellach ar gyfer gweddill y flwyddyn ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau amrywiol.

Cludiant Integredig - gorwariant ar gytundebau bysus cyhoeddus, er fod yr adran yn y broses o gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus, gyda'r Brifysgol eisoes wedi ei gomisiynu i adolygu'r ddarpariaeth, bu oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid19.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

| Adran Ymgynghoriaeth | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2020 |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| Maes:- | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg | (699) | (711) | (12) | 0 | (12) | 66 |
| Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS) | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uned Rheoli Risg Llifogydd | 486 | 486 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaeth Adeiladu | (16) | 6 | 22 | 0 | 22 | 36 |
| Cyfanswm Ymgynghoriaeth | (227) | (217) | 10 | 0 | 10 | 102 |
| <i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i> | | | | (110) | (110) | |
| Cyfanswm Addasedig Ymgynghoriaeth | | | | | (100) | |

Ymgynghoriaeth

Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg - adferiad i lefelau incwm yn dilyn i incwm misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol gael eu llesteirio oherwydd effaith Covid19, gyda'r golled incwm net o £140k am fisoedd cyntaf y flwyddyn bellach wedi ei ddigolledu gan Lywodraeth Cymru. Y gwasanaeth yn parhau i ymgeisio am waith ac felly denu rhagor o incwm ar amrywiol gynlluniau gan sefydliadau allanol, megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

Gwasanaeth Adeiladu - diffyg incwm yn cael ei leihau gan danwariant staff.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

| Adran Tai ac Eiddo | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2020 |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| Maes:- | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 232 | 216 | (16) | 0 | (16) | 20 |
| Gwasanaethau Tai | | | 0 | | | |
| Digartrefedd | 1,082 | 1,636 | 554 | 0 | 554 | 493 |
| Tai Sector Breifat | 433 | 435 | 2 | 0 | 2 | (30) |
| Eraill | 440 | 399 | (41) | 0 | (41) | (51) |
| | 1,955 | 2,470 | 515 | 0 | 515 | 412 |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 4,449 | 4,361 | (88) | 0 | (88) | (50) |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | 2 | 19 | 17 | 0 | 17 | (25) |
| | 4,451 | 4,380 | (71) | 0 | (71) | (75) |
| Cyfanswm Tai ac Eiddo | 6,638 | 7,066 | 428 | 0 | 428 | 357 |
| <i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i> | | | | (288) | (288) | |
| <u>Cyfanswm Addasedig Tai ac Eiddo</u> | | | | | 140 | |

Tai ac Eiddo

Rheolaeth - cynllun arbedion amgen bellach wedi disodli cynllun hanesyddol nad oedd yn gwireddu ynghyd â thanwariant ar gostau staff a hyfforddiant.

Gwasanaethau Tai - yn Digartrefedd pwysau sylweddol ar y gyllideb Llety Dros Dro, gyda chyfran helaeth ohono yn deillio o'r argyfwng i symud y digartref oddi ar y stryd. £194k i ddigolledu am y gwariant ychwanegol perthnasol i'r chwarter cyntaf eisoes wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru gyda'r disgwyliad y bydd y cais am £260k ar gyfer yr ail chwarter hefyd yn llwyddiannus. Tanwariant ar gostau staff yn Digartrefedd a thanwariant yn y maes Sipsiwn a Theithwyr dan Eraill yn cynorthwyo i leddfu'r gorwariant a adroddir ar gyfer y Gwasanaeth Tai.

Gwasanaethau Eiddo - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant a ragwelir, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol a cholled incwm yn y maes glanhau.

| CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | | | |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| Adrannau Canolog | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2020 |
| Maes:- | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1,764 | 1,708 | (56) | 0 | (56) | (31) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 6,580 | 6,509 | (71) | 0 | (71) | (85) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,284 | 7,293 | 9 | 0 | 9 | 51 |
| Cyfanswm Adrannau Canolog | 15,628 | 15,510 | (118) | 0 | (118) | (65) |
| <i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i> | | | | | | |
| <i>Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)</i> | | | | (7) | (7) | |
| <i>Cefnogaeth Gorfforaethol</i> | | | | (61) | (61) | |
| Cyfanswm Addasedig Adrannau Canolog | | | | | (186) | |

Adrannau Canolog

Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£56k), gyda chyfran o'r tanwariant sydd yn deillio o swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cael ei ddargyfeirio i gyllido gwell darpariaeth lles yn swyddfeydd y Cyngor. Er fod effaith yr argyfwng wedi amharu ar yr incwm a dderbyniwyd gan Cyfreithiol ar ddechrau'r argyfwng, mae'r lefelau incwm bellach wedi eu hadfer.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un-tro oherwydd swyddi gwag, secondiadau a derbyniad incwm a grantiau mewn nifer o feysydd. Gwelwyd costau ychwanegol gan yr adran yn deillio o'r argyfwng yn y maes technoleg gwybodaeth ac yn y maes gweinyddu grantiau busnes.

Cefnogaeth Gorfforaethol - cyfyngiadau Covid19 wedi arwain at golledion incwm, yn bennaf yn y maes cofrestru priodasau. Effaith Covid19 hefyd wedi cael goblygiadau negyddol ar incwm mewnol yr Argraffdy gyda diffyg o £123k yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Nifer o swyddi gwag a thanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau ar draws yr adran.

| CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | | | |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau) | Cyllideb Arfaethedig 2020/21 | Amcan Sefyllfa 2020/21 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2020 |
| Maes:- | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | (277) | 277 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (303) | 303 | 0 | 0 |
| Costau Cyfalaf | * | * | (613) | 613 | 0 | 0 |
| Derbyniad Llog | * | * | 320 | | 320 | 300 |
| Darpariaeth Gwireddu arbedion Corfforaethol | * | * | (1,644) | | (1,644) | (1,644) |
| Arbedion Ymlaen Llaw | * | * | (148) | 148 | 0 | (75) |
| Eraill gan gynnwys Cyllidebau a ddychwelwyd gan Adrannau | * | * | (769) | 449 | (320) | (225) |
| Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19 heb ei ddyrannu i'r Adrannau | * | * | 0 | | 0 | (422) |
| Cyfanswm Corfforaethol | * | * | (3,434) | 1,790 | (1,644) | (2,066) |
| <i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19 heb ei ddyrannu i'r Adrannau</i> | | | | | (49) | |
| Cyfanswm Addasedig Corfforaethol | | | | | (1,693) | |

Corfforaethol

Treth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor - yn wyneb yr argyfwng Covid19 ac felly i osgoi caledi ariannol posib, cafodd pob gweithred adennill ar filiau Treth Cyngor heb eu talu eu hatal am gyfnod o 3 mis tan ddechrau Gorffennaf. Hyd at ddiwedd Tachwedd, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 342 eiddo i drosglwyddo o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig (397 yn 2019/20, 453 yn 2018/19). Mae'r Cyngor wedi cynllunio i dderbyn £2.7m o Bremiwm Treth y Cyngor yn ystod 2020/21 sydd i'w neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai. Er hyn oll, rhagwelir sefyllfa ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol o (£277k) ar Dreth Cyngor oherwydd rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2020/21.

Gostyngiadau Treth Cyngor - er y bu cynnydd o 3% yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol yma o ganlyniad i'r argyfwng Covid19, rhagwelir tanwariant o (£303k) yn dilyn derbyniad grant penodol ynghyd â gosod amcangyfrifon darbodus.

Costau Cyfalaf - (£478k) o gynlluniau cyfalaf sydd i'w hariannu o refeniw ond fydd bellach yn llithro i'r flwyddyn nesaf o ganlyniad i Covid19, i'w trosglwyddo i gronfa i alluogi ailbroffilio'r adnodd. Yn ychwanegol i hyn, tanwariant o (£135k) o ganlyniad i bolisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca allanol.

Derbyniad Llog - yn dilyn ardrawiad Covid19 ar y marchnadoedd arian, rhagwelir leihad yn y derbyniad llog disgwylidig.

Darpariaeth Gwireddu Arbedion Corfforaethol - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud i'r pwrpas sydd ar gael i'w ddyrannu'n briodol.

Eraill gan gynnwys Cyllidebau ddychwelwyd gan Adrannau - y pwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd ac felly'n tanwario eleni.

Argymhellir fod (£478k) cynlluniau cyfalaf sydd i'w hariannu o refeniw i'w trosglwyddo i gronfa i alluogi ailbroffilio'r adnodd, gyda gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, sef (£1,312k) yn mynd i falansau'r Cyngor i gynorthwyo i wynebu'r her ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor ar ddiwedd 2020/21 yn arbennig felly yn sgil argyfwng Covid19.